

CYNGOR GWYNEDD

ADRODDIAD I BWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad y Cyfarfod:	21 Mehefin, 2018
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor
Awdur:	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679685
Teitl yr Eitem:	Cais Cynllun Twf ar gyfer Gogledd Cymru – Diweddariad Cynnydd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno diweddariad ar y Cynllun Twf i Ogledd Cymru, ynghyd a gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu arfaethedig.

2. CRYNODEB O'R SEFYLLFA DDIWEDDARAF

- 2.1. Mae sawl gweithdy wedi ei gynnal gydag Aelodau'r Cyngor er mwyn rhannu gwybodaeth am y Cynllun Twf. Rhoddwyd cefndir am y broses o ddatblygu ceisiadau'r Cynllun Twf, a'r disgwyliadau o Lywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, rhoddwyd blas i'r Aelodau am y mathau o brosiectau fyddai'n debygol o fod yn rhan o Gynllun Twf y Gogledd, a'r gofynion ariannol. Amlygwyd yn enwedig pwysigrwydd y sector preifat yn y broses o adnabod syniadau a chynlluniau posibl er mwyn manteisio ar arian o'r Cynllun Twf. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith bod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ei le, ac yn cyd-gordio datblygiad y Cynllun Twf.
- 2.2. Bwriedir rhoi cyflwyniad ar lafar i'r Pwyllgor o ran y sefyllfa ddiweddaraf o ran y trafodaethau efo Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru.

3. Y DDOGFEN GYNNIG

- 3.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi paratoi'r "ddogfen gynnig" sy'n dwyn ynghyd y cyfiawnhad am fuddsoddiad i'r Gogledd, ein gweledigaeth ac amcanion ein Rhaglenni Strategol a'r portffolio o Brosiectau, a'r achosion economaidd ac ariannol ar gyfer buddsoddiad.
- 3.2. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas â phwerau a chyfrifoldebau newydd i'r Gogledd, ac yn nodi'r trefniadau llywodraethu fydd mewn lle er mwyn cyflawni'r Weledigaeth Dwf.
- 3.3. Mae copi o Grynodedb Gweithredol a phrif negeseuon y Ddogfen wedi'i gynnwys fel **Atodiad 1**.

- 3.4. Fe welwch yn ogystal 'naratif' o bob prosiect sydd yn rhan o'r Cynllun Twf yn **Atodiad 2**. Mae hyn yn rhoi syniad da i chwi fel Aelodau beth yw pwrpas a phrif ddeilliannau pob prosiect.
- 3.5. Fe gyflwynir tablau yn crynhoi'r achos ariannol a'r achos economaidd dros fuddsoddiad yn **Atodiad 3**. Dyma fydd sail y trafodaethau gyda'r ddwy Lywodraeth, gyda'r bwriad i ddod i gytundeb ynglŷn â'r "penawdau telerau" (Heads of Terms Agreement) erbyn Hydref/Tachwedd 2018.
- 3.6. Mae'r wybodaeth am y trefniadau llywodraethu a'r Cytundeb Llywodraethu yn cael ei gyflwyno yn **Atodiad 4**. Mae'n fwriad cyflwyno'r Cytundeb Llywodraethu arfaethedig i'r Cabinet ar 3ydd o Orffennaf ac i'r Cyngor Llawn ar 12fed o Orffennaf.
- 3.7. Gwahoddir sylwadau a barn y Pwyllgor ar y Cytundeb Llywodraethu.
-

Atodiadau:

Atodiad 1	Crynodeb Gweithredol a Phrif Negeseuon
Atodiad 2	Prosiectau
Atodiad 3	Tablau Achos Ariannol a'r Achos Economaidd
Atodiad 4	Trefniadau Llywodraethu

Dogfennau Cefndirol:

Dim.